Canolfan y Bont

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

Cwricwlwm / Curriculum

Mae pob disgybl yn dilyn rhaglen unigol, sydd wedi'i chynllunio'n benodol i ddiwallu eu hanghenion personol.
Maent yn dilyn Cwricwlwm Cenedlaethol gwahaniaethol (Cynllun Gwaith EQUALS), sy'n cael ei fonitro, ei adolygu a'i ddatblygu yn unol â mentrau addysgol newydd a chyfarwyddebau'r llywodraeth.

Mae nifer o'n disgyblion hefyd yn dilyn 'Ar Drywydd Dysgu', rhaglen a gydnabyddir yn genedlaethol, sy'n canolbwyntio ar gyfathrebu a datblygiad gwybyddol disgyblion ag anawsterau dysgu dwys.

Mae'r disgyblion hefyd yn cymryd rhan mewn Rhaglen Sgiliau Bywyd strwythuredig sy'n anelu at ddatblygu eu hannibyniaeth a'u medrau hunangymorth.

Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau megis hyfforddiant cymdeithasol, coginio, cerddoriaeth a therapi dawns, sesiynau celf synhwyraidd, nofio, therapi gwrth-rwymo ac adweitheg. Fe'u hanogir hefyd i integreiddio, lle y bo'n briodol, ac mae llawer o'n disgyblion yn cymryd rhan mewn sesiynau addysgu grwpiau bach o fewn yr Adran Sgiliau Bywyd ac yn mynychu SULP (Rhaglen Defnydd Cymdeithasol o Iaith). Mae'r disgyblion hefyd yn cael cyfle i gael mynediad i ddosbarthiadau arbenigol gydag athrawon pwnc prif ffrwd.

Mae pob disgybl, waeth beth fo'i anabledd, yn ennill achrediad drwy ystod o ddyfarniadau a gydnabyddir yn genedlaethol.

Mae disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 yn dilyn dull thematig sy'n gysylltiedig â rhaglen ABCh ASDAN 'Gorwelion Newydd'.

Mae disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 a 5 yn cymryd rhan yn y Cwrs Lefel Mynediad ASDAN, Cynnydd Personol.

Yn un ar bymtheg oed, mae llawer o'n disgyblion yn cael cyfle i integreiddio i'w Coleg Addysg Bellach lleol. Y gobaith yw y bydd nifer o'r disgyblion hyn yn parhau i fynychu'r coleg, yn llawn amser, pan fyddant yn gadael yr ysgol yn bedair ar bymtheg oed.

Canolfan y Bont

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

Cwricwlwm / Curriculum

Each pupil follows an individual program, which has been specifically designed to meet their personal needs.

They follow a differentiated National Curriculum (EQUALS Scheme of Work), which is monitored, reviewed and developed in line with new educational initiatives and government directives.

Several of our pupils also follow 'Routes for Learning', a nationally recognised programme, which focuses on the communication and cognitive development of pupils with profound learning difficulties.

The pupils also participate in a structured Life Skills Programme which aims to develop their independence and self-help skills.

The pupils participate in a variety of activities such as, social training, cookery, music and dance therapy, sensory art sessions, swimming, rebound therapy and reflexology. They are also encouraged to integrate, where appropriate, and many of our pupils participate in small group teaching sessions within the Life Skills Department and attend SULP (Social Use of Language Programme). The pupils also have the opportunity to access specialist classes with mainstream subject teachers.

Each pupil, regardless of disability, gains accreditation through a range of nationally recognised awards.

Pupils in Key Stage 3 follow a thematic approach linked to the ASDAN PSE programme 'New Horizons'.

Pupils in Key Stage 4 and 5 participate in the ASDAN Entry Level Course, Personal Progress.

At the age of sixteen, many of our pupils have the opportunity to integrate into their local Further Education College. It is hoped that several of these pupils will continue to attend college, on a full-time basis, when they leave school at nineteen.